Cryfhau Partneriaeth Gymdeithasol

Strengthening Social Partnership

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ailennyn Ymddiriedaeth, Ailddychmygu Partneriaeth: Cam beiddgar i'r dyfodol gan Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Mewn cam beiddgar i ailosod perthnasoedd ac ailennyn ymddiriedaeth, mae Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) wedi ailddiffinio'r hyn a olygir wrth weithio mewn partneriaeth.**

Yn ystod 2022, ar ôl ymdrin â pherthnasoedd heriol am nifer o flynyddoedd a oedd yn bygwth troi'n anghydfod, gweithiodd WAST gydag ACAS i gynhyrchu adroddiad ar argymhellion i wella'r berthynas.

Datblygwyd cynllun o weithgareddau gan gynnwys rhaglen ddatblygu a ddaeth ag bartneriaid a rheolwyr undebau llafur at ei gilydd, o arweinwyr gweithredol i reolwyr lleol rheng flaen

Nid oedd y rhaglen yn ticio blychau yn unig, ond yn gwahodd cyfranogwyr i "gael blas ar swyddi ei gilydd," gan ddefnyddio prosesau chwarae rôl ymdrochol ac adrodd straeon myfyriol er mwyn sbarduno empathi, chwerthin a deialog onest. Y canlyniad? Newid diwylliannol – a oedd yn cefnogi datblygu a chryfhau perthnasoedd.

Nid oedd hyn yn un digwyddiad yn unig. Mae'r dull yn dibynnu ar strwythurau sefydledig, fforymau partneriaeth uwch a rhanbarthol, fforymau arweinyddiaeth, a grwpiau gorchwyl a gorffen cydweithredol lle mae materion yn cael eu trin yn gynnar ac yn adeiladol. Mae arweinwyr a phartneriaid o undebau llafur yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i ymgysylltu â'i gilydd mewn ysbryd o barch a chydweithrediad i'r ddwy ochr.

Roedd yr effaith i'w weld yn glir yng Nghynhadledd Partneriaeth Gymdeithasol WAST yn ddiweddar, lle dathlwyd y fenter fel enghraifft amlwg o sut y gall arweinyddiaeth ddewr a phwrpas cyffredin sbarduno newid go iawn. Mae'n fodel byw o Bartneriaeth Gymdeithasol, ac yn un sydd nid yn unig yn cyflawni canlyniadau, ond yn gosod safon newydd ar gyfer cydweithio ledled Cymru.



© Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52769
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Astudiaeth achos

Gorffennaf 2025